

Strategaeth Rheoli Dŵr Arwyneb



Cynnal bio-amrywiaeth fel rhan o gynllun tawelu traffig



Bagiau tywod yn helpu i atal llifogydd

Rhagair

Dŵr arwyneb yw'r glaw sy'n rhedeg oddi ar heolydd, toeon a llwybrau i'r carthffosydd cyhoeddus. Am nifer o resymau, yn cynnwys stormydd difrifol amlach a gorddatblygu ardaloedd, mae rhwydwaith carthffosydd Dŵr Cymru yn gorfod delio â llif dŵr arwyneb cynyddol. Yn achlysurol, ni fydd y rhwydwaith yn gallu ymdopi â'r llif, sy'n gallu arwain at lifogydd mewn cartrefi, gerddi a heolydd, a llygru nentydd ac afonydd.

Cefndir

Mae Dŵr Cymru wedi datblygu strategaeth rheoli dŵr arwyneb er mwyn taelo'r problemau hyn. Y nod yw gwella ymwybyddiaeth o'r mater a chydweithio â chyrrff perthnasol er mwyn darparu atebion. Mewn ardaloedd gwledig bydd cyfran uchel o'r dŵr glaw yn disgyn i'r ddaear ac yn llifo i nentydd ac afonydd, ac ymlaen i'r môr. Fodd bynnag, mewn ardaloedd trefol mae llai o feysydd gwyrdd ac agored. Yn gynyddol mae tir pentrefi, trefi a dinasoedd yn cynnwys mwy o dai, adeiladau, heolydd a llwybrau tarmac. Mae hynny'n rhwystro prosesau draenio naturiol, gyda glaw sy'n cwmpo ar doeon ac arwynebau eraill yn llifo lawr cafnau a draeniau ac i mewn i'r system carthffosiaeth. Mae hynny'n golygu bod carthffosydd trefol yn aml heb y cynhwysedd i ymdopi â'r stormydd difrifol sydd wedi dod yn fwy aml dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hynny'n gallu arwain at lifogydd mewn cartrefi ac ardaloedd, gan achosi trallod i'r trigolion.

Yn ogystal, bydd dŵr arwyneb yn cyrraedd y carthffosydd yn galw am fwy o ynni i'w bwmpio i'w drin mewn gweithfeydd carthion, sy'n achosi effeithiau amgylcheddol pellach wrth greu allyriadau carbon uwch.

Bydd Dŵr Cymru yn defnyddio llawer o ynni ac mae am ostwng ei allyriadau carbon. Bydd taelo effeithiau'r cynnydd mewn dŵr arwyneb yn creu buddion amgylcheddol wrth ddiogelu amgylcheddau lleol a gostwng allyriadau carbon.

Amcanion

Bydd llifogydd carthion ac achosion llygredd yn effeithio cymdeithas yn gyffredinol ac yn galw am ymateb gan amryw gyrff. Ni fydd Dŵr Cymru yn gallu datrys y problemau ar ben ei hun, oherwydd bydd rhaid taelo'r achosion craidd. Mae'r cwmni yn benderfynol o wneud popeth posibl i ostwng risgiau llifogydd a llygredd a bydd hynny'n galw am gydweithio ag eraill i ostwng llifoedd dŵr arwyneb o fewn systemau carthffosiaeth 'cyfun', hynny yw rhai sy'n cario carthion a dŵr arwyneb.

Y cam cyntaf fydd hyrwyddo dealltwriaeth o achosion a chanlyniadau llifoedd dŵr arwyneb a sut all cyrff ac unigolion gymryd camau i'w tacllo. Nid cloddio heolydd er mwyn gosod carthffosydd mwy yw'r ateb. Byddai hynny'n achosi trafferthion mawr, yn ddrud iawn i gwsmeriaid ac yn annhebyg o ddarparu ateb hir dymor cynaladwy. Felly, bydd angen nifer o atebion amgen a dyfeisgar. Mae Dŵr Cymru a chyrff eraill yng Nghymru yn gweithio i dactlo'r problemau hyn, sy'n effeithio'r Deyrnas Unedig gyfan.

Y nod hir dymor yw cael systemau draenio mewn ardaloedd datblygedig fydd, i raddau rhesymol ymarferol, yn adlewyrchu'r sefyllfa fel yr oedd hi pan oedd y tir yn wyrrd. Wrth wneud hynny, bydd y rhan helaeth o ddŵr arwyneb yn dychwelyd i'r tir neu ddyfrgyrsiau agored cyn gynted â phosibl.

Cymal 1

Mae Dŵr Cymru eisoes wedi comisiynu dwy astudiaeth er mwyn cyflwyno a gweithredu'r strategaeth. Mae Cymal 1 wedi nodi nifer o fentrau a allai ostwng llifoedd dŵr arwyneb. Cwblhawyd y gwaith ym Mawrth 2007, gan nodi'r gwaith o fewn y categorïau bras isod:

- ✓ Cyfranogiad
- ✓ Prisiau
- ✓ Deddfwriaeth
- ✓ Technegol

Cymal 2

Cynhelir astudiaeth Cymal 2 yn ystod 2008 ar gost o £800,000. Bydd yn gweithredu argymhellion adroddiad Cymal 1 ac yn clustnodi meysydd ychwanegol i fod yn destun ymchwil a buddsoddiad er mwyn cyflawni'r strategaeth hir dymor. Wrth gyflwyno mesurau draenio trefol cynaladwy, bydd y strategaeth gostwng llifoedd dŵr arwyneb yn ceisio gwneud yr isod:

- ✓ Gostwng achosion llifogydd
- ✓ Gostwng achosion llygredd
- ✓ Gostwng costau ynni
- ✓ Cefnogi cyfleoedd cadwraeth a hamdden
- ✓ Taclo twf ardaloedd adeiledig
- ✓ Helpu i isafu effeithiau'r newid hinsawdd





Caerdydd – tacio problemau llifogydd 32 adeilad

Bydd gweithredu egwyddorion y strategaeth yn sicrhau mabwysiadu'r atebion mwyaf cynaladwy. A byddwn yn gwario cyfran uwch o'n gwariant ar fesurau ataliol yn hytrach nag ymateb i ddigwyddiadau.

Dyma'r mentrau a ddatblygir fel rhan o Cymal 2 i'w gweithredu yn y dyfodol:

Cyfranogiad: Mae potensial llwyddiant y strategaeth o dan reolaeth uniongyrchol partïon eraill. Felly, bydd rhaid cydweithredu'n uniongyrchol â nhw er mwyn gostwng lliffoedd dŵr arwyneb yn arwyddocaol - gan leddfu effeithiau'r newid hinsawdd a datblygiad adeiladau ar y rhwydwaith carthffosydd. Dyma rai o'r cynulleidfaoedd byddwn yn cysylltu â nhw:

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU
CYNGOR DEFNYDDWYR DŴR - CYMRU
ASiantaeth Amgylchedd Cymru
CYNGHRAIR RHEOLI ASEDau
DATBLYGWYR AC ADEILADWYR
FFORYMAU PROFFESIYNOL
CYFEILLION Y DDAEAR
AWDURDODAU LLEOL
LLYWODRAETH SAN STEFFAN
YSGOLION
Y CYHOEDD
OFWAT

Prisiau: Ar hyn o bryd mae Dŵr Cymru yn codi am ddraenio dŵr arwyneb fel rhan o'i wasanaethau carthffosiaeth. Os bydd cwsmeriaid yn datgysylltu eu dŵr arwyneb o'r carthffosydd, gallant dalu prisiau is.

Materion allweddol:

1. A ddylid cysylltu prisiau â'r arwynebau draenio?
2. Fyddai newid y pris isadeiledd yn helpu i ostwng nifer y cysylltiadau dŵr arwyneb newydd?
3. Ddylai draenio dŵr arwyneb heolydd fod yn rhan o'r pris?

Deddfwriaeth: Mae'r strategaeth rheoli dŵr arwyneb yn cyd-fynd â pholisïau cynaladwyedd a newid hinsawdd y Llywodraeth. Nod y strategaeth rheoli dŵr arwyneb felly yw ymchwilio'r potensial i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol gan Lywodraethau'r Cynulliad a San Steffan fyddai'n helpu i ostwng llifoedd dŵr arwyneb.

Materion allweddol:

1. *Opsiynau eraill yn lle hawl otomatig i gysylltu draeniau dŵr arwyneb â'r carthffosydd cyhoeddus.*
2. *Cyfyngu hawliau pobl i orchuddio gerddi o dan goncrit ac ati heb ganiatâd cynllunio, oni fyddant yn defnyddio deunyddiau hydraid.*
3. *Deddfau carthffosiaeth lleol (tebyg i rai dŵr) er mwyn rheoli carthffosydd preifat, yn benodol er mwyn taelo gorddatblygu a chyfyngu cysylltiadau dŵr arwyneb.*
4. *Systemau draenio cynaladwy, yn cynnwys perchnogaeth a mabwysiadu ar draws ffiniau cyrff sy'n rheoli draenio trefol a thir.*
5. *A ddylid newid cyllid draenio dŵr arwyneb er mwyn adlewyrchu egwyddor 'llygrwr yn talu' yn cynnwys draenio priffyrdd?*

Technegol: Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o gynlluniau blaenorol yn y maes. Byddwn yn monitro llifoedd dros yr hir dymor er mwyn nodi'r buddion posibl, a ble dylid cyfuno mesurau newydd. Byddwn hefyd yn profi offer casglu dŵr glaw oddi ar gartrefi ac adeiladau'r cwmni.

Bydd hefyd angen sefydlu 'Safle Arddangos Systemau Carthffosiaeth Cynaladwy' ble bydd pobl yn gallu gweld enghreifftiau o'r dyfeisiadau a systemau ar gael. Yn ogystal, bwriedir nodi ardal garthffosiaeth addas ble gallwn brofi cymaint â phosibl o'r mentrau strategol, a pharatoi i wneud y gwaith yn ystod rhaglen fuddsoddi 2010 - 2015.

Bydd y mentrau rheoli dŵr arwyneb yn dibynnu ar yr atebion technegol. Clustnodwyd nhw eisoes ond nid yw llawer ohonynt yn gyffredin yn y wlad hon. Felly, bydd rhaid gweithredu'r rhaglen gyfathrebu ochr yn ochr â'r atebion technegol er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r posibiladau a helpu unrhyw un fydd am eu mabwysiadu.

Mannau gwyrdd yn helpu i ddargyfeirio dŵr arwyneb o heolydd





Llifogydd ar heol

Crynodeb:

Er mwyn gweithredu egwyddorion y Strategaeth Rheoli Dŵr Arwyneb yng Nghymru, credwn bydd rhaid i Dŵr Cymru dderbyn cymeradwyaeth cyrff dylanwadol fel Llywodraeth y Cynulliad, Asiantaeth Amgylchedd Cymru, Cyngor Defnyddwyr Dŵr - Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Byddai hynny'n galluogi Dŵr Cymru i gysylltu â chynulleidfaoedd ehangach a helpu i ddarbwylllo eraill i gefnogi'r strategaeth draenio trefol cynaladwy, a hwyluso cynllun integreiddiedig i reoli dŵr arwyneb.

Oni fydd ymdrech fawr i ostwng y dŵr arwyneb yn cyrraedd carthffosydd, a newidiadau sylfaenol i'n dulliau rheoli dŵr arwyneb, mae'n glir bydd problemau llifogydd, llygredd, defnydd ynni ac allyriadau carbon yn parhau i dyfu, gyda'r newid hinsawdd yn cyfrannu'n sylweddol yn y dyfodol.

Byddwn yn gostwng llifoedd dŵr i'r rhwydwaith wrth reoli'r system, gan sicrhau na ddefnyddir i waredu dŵr arwyneb. Ar yr un pryd bydd Dŵr Cymru yn ymdrechu i ostwng yr arwynebau anhydraidd yn cysylltu â'r system. Dyma'r unig ffordd o fynnu ateb cynaladwy. Nid yw adeiladu systemau carthffosiaeth mwy yn opsiwn realistig. Bydd rhaid gwella ymwybyddiaeth o'r sefyllfa a dwyn pobl a chyrrff at ei gilydd er mwyn cyrraedd nod cyffredin.